**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD LLUN, 8 MAWRTH 2021 DYDD LLUN, 8 MAWRTH 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Steve Osborne (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>DEDDF TRWYDDEDU 2003 DATGANIAD ADOLYGIAD POLISI TRWYDDEDU 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu.<br>Amlinellodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu yr adroddiad a hysbysodd Aelodau mai diben yr adroddiad oedd i Aelodau gymeradwyo'r ymgynghoriad. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn datgan y dylai'r polisi gael ei adolygu bob pum mlynedd yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb. Mae'n rhaid i'r polisi newydd wedi ei ddiweddaru gael ei weithredu cyn mis Hydref 2021.<br><br>Holodd Aelod sut y cynhelir y broses ymgynghori yn ystod y pandemig. Esboniodd y Rheolwr Tîm y caiff yr ymgynghoriad ei gynnal mewn nifer o ffyrdd, mewn blynyddoedd diweddar roedd ymgynghoriadau wedi defnyddio dulliau mwy digidol a byddai dolenni i'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor. Byddid hefyd yn anfon llythyrau ymgynghori at rai a diddordeb gyda'r ymatebion yn cael eu casglu a'u hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor.<br><br>Hysbysodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau y paratowyd amserlen ddiwygiedig ar gyfer yr ymgynghoriad oherwydd y pandemig, fodd bynnag mae'r cyfnod ymgynghori yn dal ar y targed i gyflawni amserlen y Pwyllgor a'r dyddiad gweithredu.<br><br>Yng nghyswllt unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i'r polisi dros y 5 mlynedd ddiwethaf, esboniodd y Rheolwr Tîm eu bod yn gweithio gyda phump awdurdod Gwent ac felly roedd newidiadau gweinyddol dros gyfnod, ond dim newidiadau na diweddariad sylweddol i'w tynnu at sylw Aelodau ar hyn o bryd. Yn dilyn yr ymgynghoriad, caiff yr holl newidiadau eu hamlygu a byddir yn dod â nhw yn ôl i Aelodau ar y pwynt hwnnw.<br><br>Yng nghyswllt Deddf Trwyddedu 2003, cyfeiriodd Aelod at | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiogelu'r cyhoedd cysylltiedig â Covid ac esboniodd sut byddai hyn yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Dywedodd y Rheolwr Tîm fod y Ddeddf Trwyddedu a'r adolygiad o bolisi'n cysylltu'n ôl i'r amcanion trwyddedu tebyg i atal troseddu ac anrhefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Mae Covid-19 yn fater iechyd cyhoeddus ond yn anuniongyrchol wedi'i ddal o fewn y polisi, er enghraifft, lle mae busnesau'n methu cydymffurfio gyda rheoliadau cyfyngiadau busnes Covid-19 gallai hynny ddod o fewn amcanion troseddu ac anrhefn neu ddiogelwch cyhoeddus y polisi.<br><br>Yng nghyswllt cwestiynau am ddarpariaeth yr Awdurdod o gamerâu CCTV, esboniodd y Rheolwr Tîm y cânt eu defnyddio weithiau fel rhan o orfodaeth weithredol y Ddeddf Drwyddedu ond nad yw rheolaeth gyffredinol system CCTV yn fater i bolisi'r Ddeddf Trwyddedu, gan fod y rheolaeth dros hyn yn dod tu allan i gylch gorchwyl y Tîm Trwyddedu. Esboniodd ymhellach y gellid gosod amodau ar ddeiliaid trwyddedau i'w gwneud yn ofynnol i gael darpariaeth CCTV mewn safleoedd trwyddedig a bod yn rhaid i fideo o'r fath fod ar gael i'r swyddogion gorfodaeth perthnasol o fewn cyfnod penodol. Yn hynny o beth, byddai'r cyfnod ymgynghori yn caniatáu sylwadau ar hyn lle'n briodol.<br><br>Felly<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo ymgynghoriad ar y drafft Ddatganiad o Bolisi Trwyddedu diwygiedig, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003. Yn dilyn y mater, dylid adrodd y mater yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu i ystyried y drafft bolisi ac ymatebion i'r ymgynghoriad yn ffurfiol (Opsiwn 1). | |